Pensiynau, cyflog ac ati
Y newyddion diweddaraf, gan gynnwys cynlluniau ar gyfer y cwricwlwm.

Hyrwyddo'r Gymraeg
Fideo'n annog plant i chwilio, gweld a chlywed.

Model newydd ar gyfer gwaith trefnu
Datblygu gwaith yr undeb yng Nghymru.

addysgu yng nghymru

Rhifyn 62
Tymor y haf 2019

Ymgyrch Toriadau i Ysgolion Cymru'n cael ei lansio ar faes Eisteddfod yr Urdd

YN DILYN blynyddoedd o dangyllido gan San Steffan, mae ysgolion yng Nghymru'n wynebu'r diffyg mwyaf yn eu cyllid ers cenhedlaeth.

O ganlyniad, ers 2015, mae 942 o ysgolion ar draws Cymru, wedi gorfod delio gyda thoriadau i'r cyllid sydd ar gael ar gyfer pob disgybl. A'r canlyniad? Llai o staff, llai o adnoddau, llai o gefnogaeth un i un, llai o gefnogaeth i blant ag anghenion dysgu ychwanegol a llai o bwyslais ar gelf, chwaraeon a cherddoriaeth o fewn y cwricwlwm.

Mae penaethiaid, athrawon a staff mewn ysgolion yn gwneud eu gorau glas i leihau'r effaith ar y plant, ond nid yw'r sefyllfa hon yn gynaliadwy.

Mae'r Sefydliad Astudiaethau Cyllid (IFS) yn tynnu sylw at leihad o 5 y cant yng nghyllid ysgolion yng Nghymru rhwng 2009 a 2018. Mae gwasanaeth ymchwil y Cynulliad Cenedlaethol ei hun yn nodi bod lleihad o 7.9 y cant, mewn termau real, wedi bod yn y cyllid rhwng 2010 a 2019.

Pa bynnag ffordd yr edrychwch ar y ffigurau, y gwir amdani yw nad oes digon o arian o fewn y system addysg yng Nghymru. Os yw Cymru'n gobeithio rhoi system addysg o'r radd flaenaf yn ei lle, mae'n rhaid sicrhau mwy o gyllid.

Mae disgwyl i weithwyr proffesiynol o fewn y byd addysg yng Nghymru wneud mwy gyda llai. Gyda'r byd addysg yng Nghymru'n wynebu cwricwlwm a threfniadau asesu newydd, diwygiadau pellgyrhaeddol i'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol, targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 a Safonau Proffesiynol newydd, mae angen mwy o gefnogaeth, nid llai, ar ein gweithwyr proffesiynol.

Os na fydd sylw brys yn cael ei roi i'r diffygion cyllidol, bydd y sefyllfa'n mynd o ddrwg i waeth.

Denwyd cannoedd o ymwelwyr i stondin Toriadau i Ysgolion Cymru

FE LANSIODD Undeb Addysg Cenedlaethol (NEU) Cymru, ar y cyd ag ASCL Cymru, NAHT Cymru ac UCAC, ei ymgyrch Toriadau i Ysgolion Cymru ar ddiwrnod cyntaf Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd ym Mae Caerdydd.

Mae'r ymgyrch yn galw ar Lywodraeth San Steffan i gynyddu'r cyllid sydd ar gael i Gymru, rhoi'r gorau i wneud toriadau i grant bloc Llywodraeth Cymru a gwrthdroi'r sefyllfa.

Yn ogystal â hyn, mae'r ymgyrch yn gofyn i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y cyllid sy'n cael ei roi i ysgolion yn ddigonol, yn deg ac yn eglur, ac mae'r ymgyrch yn mynnu bod unrhyw arian sydd dros ben yn mynd yn syth i goffrau'r byd addysg.

Llwyddodd stondin Toriadau i Ysgolion Cymru ar faes yr Eisteddfod i ddenu cannoedd o athrawon, rhieni, llywodraethwyr, disgyblion ac aelodau o'r cyhoedd i siarad am eu pryderon ac i drafod y toriadau.

Yn parhau ar dudalen 2

Newyddion

Dyddiadau dysgu ar gyfer eich dyddiaduron

MAE dysgu wth galon NEU Cymru ac rydym yn ymfalchïo yn yr hyfforddiant lleol a ddarparwn i weithwyr addysg proffesiynol a chynrychiolwyr gweithle.

Mae'r Undeb yn cynrychioli'r grŵp mwyaf o weithwyr addysg proffesiynol yng Nghymru a'n cred yw bod dysgu'n rhoi grym i'n haelodau. Mae'r cyfleon dysgu helaeth sydd ar gael i aelodau NEU Cymru yn dyst i hyn. Bydd y cyrsiau canlynol yn cael eu cynnal yn ystod tymor yr hydref.

HYFFORDDIANT I GYNRYCHIOLWYR

Mae'r undeb yn rhedeg cyrsiau undydd a chyrsiau tri diwrnod ar gyfer cynrychiolwyr gweithle, hen a newydd. Mae'r rhain wedi bod yn llwyddiant mawr, gan eu bod yn rhoi'r adnoddau a'r hyder sydd eu hangen ar gynrychiolwyr i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau'n haelodau.

Mewn ymateb i adborth cynrychiolwyr sydd eisoes wedi bod ar y cyrsiau, mae newidiadau sylweddol wedi cael eu gwneud i'r ffordd y caiff y cyrsiau eu rhedeg.

Mae cyrsiau sylfaenol a chyrsiau uwch bellach ar gael i gynrychiolwyr. Gall cynrychiolwyr un ai ddewis dilyn y cwrs 3 diwrnod mewn bloc, neu gallant ddilyn y cwrs ar ffurf modiwlau dros gyfnod penodol o amser.

Bydd y cyrsiau'n cael eu cynnal ar y dyddiadau canlynol:

Cwrs Sylfaenol
13 Medi – cwrs modiwlar , diwrnod 3 – Future Inns, Caerdydd
2-4 Hydref – cwrs 3 niwrnod – Gwesty'r Diplomat, Llanelli
13-15 Tachwedd – cwrs 3 diwrnod – Ynys Môn

Cyfraith Cyflogaeth
11 Tachwedd – Gwesty'r Village, Abertawe

Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn gynrychiolydd gweithle a mynd ar un o'r cyrsiau yma, cysylltwch â swyddfa NEU Cymru.

Cofiwch, mae gan gynrychiolwyr hawl gyfreithiol i fynychu'r cyrsiau yma. Gall yr NEU gefnogi unrhyw gynrychiolydd sy'n cael trafferth cael amser i ffwrdd o'r gwaith er mwyn mynychu.

THYFFORDDIANT AR GYFER AELODAU

Cwrs 8 wythnos ymwybyddiaeth ofalgar
23 Medi – Ysgol Uwchradd y Dwyrain, Tredelerch

Mae'r cwrs yma ar gael drwy'r prosiect WULF newydd, a gychwynnodd ym mis Ebrill.

Bydd rhagor yn cael eu trefnu maes o law a gellir dod o hyd i restr, sy'n cael ei diweddaru'n gyson, ynghyd â manylion am sut i gofrestru, ar **eventbrite.co.uk/o/national-education-union-cymru-training-10916965546**

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am yr uchod, neu os hoffech chi i'r Undeb drefnu cwrs penodol, e-bostiwch Lisa Williams, **lisa.williams@neu.org.uk** neu Beth Roberts, **beth.roberts@neu.org.uk**

Mae'n rhaid i bob cwrs syrthio oddi mewn i ganllawiau'n pedwar maes blaenoriaeth:

- Sgiliau allweddol
- Datblygu a chamu ymlaen mewn gyrfat
- Iechyd a lles
- Dysgu'r laith Gymraeg.

Edrychwch ar eich negeseuon e-bost i gael gwybod am y cyfleon hyfforddi diweddaraf. Hoffwch ni ar Facebook ar facebook.com/neucymrutraining, dilynwch ni ar Twitter ar @neucymrutrain ac ewch i neu.org.uk/learning-and-events

Toriadau i gyllid 942 ysgol yng Nghymru

Parhad o dudalen 1

Bu ymwelwyr yn aros i weld eu hysgol ar wefan newydd Toriadau i Ysgolion Cymru, sydd bellach ar gael yn Gymraeg ar **toriadauiysgolion.cymru** ac yn Saesneg ar **schoolcuts.cymru**

Dywedodd Ysgrifennydd Cymru, David Evans, mewn cyfweliad gydag ITV: "Mae'r llymder sydd wedi ei drosglwyddo inni gan San Steffan wedi effeithio ar rieni, plant a gweithwyr addysg proffesiynol ers yn rhy hir.

"Gyda'r cwricwlwm newydd ar y ffordd, mae angen mwy o arian arnom ar gyfer adnoddau a hyfforddiant. Mae angen i'r Llywodraeth roi mwy o arian i Gymru, fel y gall Llywodraeth Cymru roi mwy o arian i ysgolion."

Yn ystod y digwyddiad, a gynhaliwyd dros gyfnod o wythnos, llwyddodd yr ymgyrch i wneud cysylltiad â dros 4,500 o bobl, gyda mwy na 1,500 yn cofrestru i gael y newyddion diweddaraf dros e-bost.

Os hoffech chi gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr ymgyrch Toriadau i Ysgolion Cymru, gallwch gofrestru ar **toriadauiysgolion.cymru/gweithredwch**

Ymunodd mwy na 1,500 gyda Toriadau i Ysgolion Cymru

Fideo newydd i hyrwyddo'r Gymraeg mewn ysgolion

BYDD Comisiynydd y Gymraeg yn lansio pecyn addysgol newydd ym mis Hydref er mwyn annog disgyblion ysgolion cynradd i gymryd sylw o'r Gymraeg yn eu hardal.

Yn y pecyn mae fideo, cynllun gwers a chyflwyniad byr ar gyfer plant ar waith Comisiynydd y Gymraeg. Mae'r pecyn wedi ei anelu at blant sydd yng nghyfnod allweddol 2, a chafodd ei groesawu a'i ganmol gan athrawon yn ystod y cyfnod prawf mewn ysgolion.

Nod y pecyn addysg yw dangos i blant, mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg ac ysgolion cyfrwng Saesneg fel ei gilydd, pa mor bwysig yw'r Gymraeg i Gymru, ac egluro beth yw gwaith y Comisiynydd. Mae'n ceisio annog plant i weld, i glywed ac i chwilio am y Gymraeg yn eu hardal nhw.

Mae'r pecyn addysgol yn dilyn amcanion y Siarter Iaith ac mae'n annog plant, mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg, i ddefnyddio'r iaith mewn sefyllfaoedd cymdeithasol.

Briallen Rees-Owen sy'n 10 oed a Cai Efan Thomas sy'n 11 oed yn cael eu ffilmio ar gyfer fideo am y Gymraeg

Yn y fideo, sydd wedi ei ffilmio gan Goriad, cwmni cynhyrchu o Gaerdydd, rydym yn gweld Briallen Rees-Owen, sy'n 10 oed a Cai Efan Thomas, sy'n 11 oed o Ysgol Gynradd Brynaman, yn cerdded gyda'i gilydd o gwmpas eu pentref yn chwilio am arwyddion Cymraeg, gan chwilio am blant sy'n siarad Cymraeg. Maent yn gweld y Gymraeg yn yr archfarchnad leol, yn y ganolfan hamdden, yn y llyfrgell, yn y clwb rygbi, mewn caffi ac mewn siop leol.

Maent hefyd yn sylwi bod rhai o'r bobl sy'n gweithio yn y llefydd yma yn gwisgo bathodyn neu laniard Iaith Gwaith.

Os ydych chi eisiau mwy o wybodaeth am hyn, cysylltwch â Swyddog Cyfathrebu Comisiynydd y Gymraeg, Glesni Haf Parry ar **glesni.parry@comisiynyddygymraeg.cymru**

NEU Cymru'n croesawu cynlluniau ar gyfer y cwricwlwm newydd

MAE'R cyfnod ymgynghori ar y cynlluniau ar gyfer y cwricwlwm newydd yng Nghymru bellach wedi cychwyn.

Mae'r cynlluniau'n rhoi cyfle i Gymru arwain y ffordd, ac yn rhoi cyfle i weithwyr addysg proffesiynol helpu plant a phobl ifanc i ddysgu mewn ffordd holistig, gan ehangu eu gwybodaeth a'u sgiliau er mwyn rhoi'r cyfle gorau posibl iddynt ddatblygu'n oedolion iach a bodlon.

Ond mae dipyn o ffordd i fynd – dim ond y cychwyn yw cyhoeddi'r ymgynghoriad ar y cwricwlwm. I gyrraedd y copa, bydd angen cefnogaeth ar weithwyr addysg proffesiynol. Mae cynyddu nifer y dyddiau HMS yn ddechrau da, ond os ydym am gyflawni potensial Cwricwlwm 2022, mae angen buddsoddiad gwirioneddol arnom. Mae'n rhaid gwneud yn siŵr nad oes effaith ar faich gwaith, ac mae angen gwneud yn siŵr, hefyd, bod yr hyfforddiant ar gael i bawb sy'n gweithio o fewn y byd addysg.

Dim ond un rhan o'r agenda ddiwygio yw'r cwricwlwm. Mae'n rhaid newid y system bresennol lle caiff asesiadau eu hystyried yn hollbwysig am eu bod yn cael eu defnyddio at ddibenion atebolrwydd, ac mae'r gweinidog wedi dweud y bydd y newid yma'n digwydd.

Mae'n rhaid i ysgolion allu canolbwyntio ar ddysgu, yn hytrach na chanolbwyntio ar brofion ac arholiadau. Law yn llaw â'r cynlluniau i wneud Estyn yn gorff mwy cefnogol, dyma fan cychwyn proses a allai arwain at newid mawr yng Nghymru.

Dyddiad cau'r ymgynghoriad yw 19 Gorffennaf.

'Cydraddoldeb cyflog yn egwyddor sylfaenol'

MAE'R Undeb wedi ymateb i ddatganiad gan Lywodraeth Cymru ar Addysgu: Proffesiwn Gwerthfawr, adroddiad gan yr Athro Mick Waters.

Mae NEU Cymru'n teimlo bod cludadwyedd a chydraddoldeb cyflog yn hanfodol er mwyn cadw athrawon talentog a chydwybodol.

Da oedd clywed y Gweinidog Addysg yn cyfeirio at "ymrwymo i'r egwyddor 'dim niwed'" a chynnal graddfeydd cyflog cymaradwy, ac at gyflawni addewid y cyn Brif Weinidog, Carwyn Jones, na fyddai'r rheiny sy'n dysgu yng Nghymru ar eu colled o gymharu â'n cymdogion agos.

"Mae NEU Cymru'n teimlo bod cludadwyedd a chydraddoldeb cyflog yn hanfodol er mwyn cadw athrawon."

Mae'r undeb wedi pwysleisio erioed bod angen gwir osgoi cyflog rhanbarthol er mwyn gwneud yn siŵr nad yw athrawon Cymru'n waeth eu byd o gymharu ag athrawon dros y ffin. Bydd NEU Cymru'n rhoi sylw blaenllaw i'r egwyddor hon yn ystod trafodaethau gyda Llywodraeth Cymru yn y dyfodol, a phan fydd yn rhoi tystiolaeth i'r corff adolygu cyflogau annibynnol sydd wedi ei sefydlu er mwyn gwneud argymhellion ar gyflog athrawon yng Nghymru.

Yma i helpu

FEL yr undeb addysg mwyaf, gall NEU Cymru roi gwasanaeth heb ei ail i'w aelodau. Mae ein tîm proffesiynol yma i ddefnyddio'u harbenigedd er mwyn helpu ein rhwydwaith o gynrychiolwyr gweithle ac ysgrifenyddion rhanbarthau a changhennau.

Os oes gennych chi broblem yn y gwaith neu i gael rhagor o wybodaeth am ein gwasanaethau i aelodau, cysylltwch â'r canlynol:

- cynrychiolydd eich gweithle;
- ysgrifennydd eich cangen;
- AdviceLine;
- Swyddfa NEU Cymru.

NEU Cymru

Ty Sinnott, 18 Neptune Court, Vanguard Way, Caerdydd CF24 5PJ

Ffôn: 029 2049 1818

E-bost: cymru.wales@neu.org.uk

Ysgrifennydd Cymru: David Evans

Uwch Swyddogion Cymru: Gareth Lloyd, Debbie Scott

Uwch Swyddog Polisi Cymru: Mary van den Heuvel

Trefnydd y Gogledd: Cai Jones

Trefnydd y De: Robert Goddard

Cyfreithiwr Cymru: Angharad Booker

Aelodau Gweithredol: Neil Foden, Mairead Canavan, Lesley Tipping

Prif Swyddfa

Yr Undeb Addysg Cenedlaethol, Hamilton House, Mabledon Place, Llundain WC1H 9BD

Ffôn: 020 7388 6191

Gwefan: neu.org.uk

Cyd-lywyddion: Kim Knappett a Kiri Tunks

Cyd-ysgrifenyddion Cyffredinol: Mary Bousted a Kevin Courtney

ROEDD gan yr undeb stondin ar faes Eisteddfod yr Urdd, yr ŵyl flynyddol a gynhaliwyd dros gyfnod o wythnos ym Mae Caerdydd eleni. Dyma ŵyl ieuenctid fwyaf Ewrop ac roeddem yn falch iawn bod Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth wedi ymuno â ni yno i roi bandiau garddwrn, sticeri a phosteri o dimau chwaraeon o Gymru i ymwelwyr. Y prif atyniad eleni oedd y gystadleuaeth tynnu llun (gweler y llun). Cafwyd mwy na 150 o gystadleuwyr, a'r enillydd oedd Rose Foskett o Ysgol Dafydd Llwyd yn y Drenewydd.

Model newydd ar gyfer trefnu gwaith yr undeb

DROS y blynyddoedd diwethaf, mae ymgyrchwyr ar lawr gwlad wedi gweithio'n galed i gynyddu gweithgarwch yr undeb yng Nghymru, ac maent wedi cael peth llwyddiant.

Trefnu gwaith o fewn ein hardaloedd yw'r her fwyaf sy'n ein hwynebu yma yng Nghymru, ac mae'n frwydr y mae'n rhaid i ni ei hennill. Dyna pam ein bod yn cefnogi agenda drefnu ein hundeb newydd gant y cant.

Mae'r rhan fwyaf ohonom yn gwybod pa mor anodd y gall denu aelodau i gyfarfodydd fod. Rydym yn deall eu hamharodrwydd, gan mai baich gwaith yw'r prif reswm sy'n eu stopio rhag mynychu. Rydym bellach wedi creu model ar gyfer cwrs hyfforddi/cynrychiolwyr, sy'n ein helpu i weithio'n agosach gydag aelodau sydd erioed wedi mynychu cwrs hyfforddi na chyfarfod o'r blaen.

Ym Mro Morgannwg, rydym wedi dylunio cwrs arbennig tri diwrnod o'r enw Trefnu drwy Iechyd a Diogelwch yn y gwaith. Ei nod yw recriwtio cynrychiolwyr iechyd a diogelwch newydd, ond, gan fod y cwrs yn rhoi sylw i'r materion sy'n poeni aelodau'n fwy na dim arall - baich gwaith, straen a phroblemau iechyd meddwl – y gobaith yw y bydd aelodau newydd yn cael eu denu i'r cyfarfod.

Mae'r dull yma'n manteisio ar sgiliau cyfathrebu'r ysgrifennydd rhanbarthol, profiad hyfforddi helaeth uwch swyddog Cymru (cefnogaeth leyg), a chefnogaeth ariannol a chefnogaeth dysgu cronfa a chydlynydd WULF.

Mae'r holl elfennau yma wedi cyfrannu'n aruthrol at lwyddiant y fenter beilot yma ac wedi chwarae rhan flaenllaw wrth ddarparu hyfforddiant i'n haelodau sy'n berthnasol ac yn addas ar gyfer y gweithlu addysg yng Nghymru.

Gyda chyfarfod rhanbarth yn cael ei drefnu bob amser cinio, mae'r rhai sy'n mynychu'r cwrs yn cael eu diweddaru ar faterion megis y gynhadledd, cynigion, a Chyngor Cymru. Mae'r cyfarfodydd yma hefyd yn ceisio annog aelodau i ddod yn ymgyrchwyr gweithgar.

Fel ysgrifennydd, dim ond dau o'r deg a oedd ar y cwrs yr oeddwn i'n eu hadnabod cyn i'r cwrs gychwyn. Er hyn, rydym wedi llwyddo i recriwtio dau swyddog rhanbarth newydd a thri cynrychiolydd iechyd a diogelwch ysgol newydd.

Diolch i gyn-adran yr ATL am y syniad o gynnal gweithgarwch Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP) ar y cyd â phob cyfarfod – mae'n fformiwla y byddaf yn ei defnyddio o hyn ymlaen ac rwyf yn annog ysgrifenyddion eraill sy'n poeni am gworwm i ystyried gwneud hyn hefyd.

Os ydych chi'n ysgrifennydd cangen neu ysgrifennydd rhanbarth ac eisiau defnyddio'r un dull (neu ddull tebyg) er mwyn medru gweithio'n agosach gyda chynrychiolwyr newydd neu rai sydd â'r potensial i fod yn gynrychiolwyr, cysylltwch â swyddfa Cymru, yn y lle cyntaf, a byddant yn hapus i basio eich manylion ymlaen at yr unigolion perthnasol.

Mairead Canavan, aelod gweithredol dros Gymru, ysgrifenydd cangen ac ysgrifenydd rhanbarth dros Fro Morgannwg

NEU Cymru'n croesawu cyllid ar gyfer pensiynau

MAE Llywodraeth Cymru wedi cytuno i dalu'r gost sydd ynghlwm â newidiadau i bensiynau athrawon yn llawn. Mae'n debygol y byddai'r gost ychwanegol yma wedi rhoi pwysau aruthrol ar ysgolion a sefydliadau addysg bellach.

Cyfanswm y gost yma, a basiwyd gan Lywodraeth San Steffan, yw £47.7m.

Mae NEU Cymru wedi croesawu'r cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru, ac yn falch na fydd pwysau ychwanegol yn cael ei roi ar ysgolion a cholegau, o ystyried bod eu cyllidebau eisoes mewn sefyllfa argyfyngus.